**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD GWENER, 16eg o FAI 2014**

**FRIDAY, 16th of MAY 2014**

Lleoliad / Location:

**SIAMBR HYWEL DDA**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**
**CAERNARFON**
**10:00am**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS (01286) 679 878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

*Dosbarthwyd/Distributed: 12.5.14*

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

# LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth / Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Tudor Owen (Cadeirydd/Chairman)

Louise Hughes

Llywarch Bowen Jones

Dilwyn Lloyd (wrth gefn)

**Aelod Lleol / Local Member**

Cynghorwyr/Councillors

June Marshall

Mair Rowlands

# RHAGLEN

1. **CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

   **Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.**

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   **Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.**

3. **MATERION BRYS**

   **Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.**

4. **CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO:**

   **LATE SHOP, 13 FFORDD CAERGYBI, BANGOR UCHAF, LL57 2EG**

   **Ystyried y cais uchod**
   **(papur glas)**

## TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

**1. Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
**2. Diogelwch y Cyhoedd;**
**3. Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
**4. Amddiffyn plant rhag niwed:**

## PROCEDURES FOR LICENSING VARIATION HEARINGS

1. A written report will be presented by the Licensing Section (with recommendation).

2. Members of the Sub-committee may ask questions of the Council's representative.

3. At the Chairman's discretion the applicant and/or his representative may ask questions of the Council's representative.

4. The applicant and/or his representative may expand upon the application and call witnesses

5. Members of the Sub-committee may ask questions of the applicant and/or his representative

6. There will be an invitation for each consultee to support any written observations

7. Members of the Sub-committee may ask questions of the consultees.

8. At the Chairman's discretion the Council's representative and the applicant or his representative may summarise their case.

All are reminded of the four principles of the Licensing Act 2003 to be considered in all deliberations, namely:

**1) Crime and Disorder Prevention;**
**2) Public Safety;**
**3) Public Nuisance Prevention; and**
**4) Protection of Children from Harm.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **16 O FAI 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – LATE SHOP, 13 FFORDD CAERGYBI, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**<u>CEFNDIR AIL GYFLWYNO'R CAIS</u>**

Atodir cais i amrywio trwydded eiddo Late Shop, 13 Ffordd Caergybi, Bangor uchaf, LL57 2EG oddi wrth deilydd y drwydded Melanie C Jones.

Fe gofiwch y bu i'r Is Bwyllgor hwn benderfynnu mewn gwrnadawiad ar yr 8fed o Dachwedd 2013 nad oedd modd clywed y cais hwn na penderfynnu arno oherwydd fod tystiolaeth wedi ei gyflwyno yn ystod y gwrandawiad fod y cais wedi ei hysbysu yn anghywir.

Yn ddiweddarach, fe fu i'r Is Bwyllgor ddod i'r casgliad mewn gwrandawiad ar yr 17 o Ragfyr nad oedd yn bosib gwneud penderfyniad ar y cais yn dilyn ei ail gyflwyno oherwydd nad oedd tystiolaeth fod y cais wedi ei hysbysebu mewn papur lleol yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cais.

Er mwyn i'r Is-bwyllgor allu ystyried y cais, mae gofyn iddo gael ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau cysylltiedig. Un o'r gofynion yw bod y cais yn cael ei hysbysu mewn papur lleol , am gyfnod o 10 diwrnod gwaith yn cychwyn ar y diwrnod ar ol i'r cais gael ei dderbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu

Yn y mater hwn, hysbyswyd y cais yn y Chronicle ar y 12 o Ragfyr; sydd tu allan i'r cyfnod ymgynghori priodol ar gyfer y cais.

Oherwydd y diffyg hwn ni hysbyswyd y cais yn briodol. Gan nad oedd wedi ei hysbysu yn briodol nid oedd gan yr Is-bwyllgor yr awdurod i i ystyried y cais ar yr 17 o Ragfyr , heb son am wneud penderfyniad o ran a ddylid ei ganiatau neu ei wrthod.

Fe hysbyswyd yr ymgeisydd a'r rhai a yrrodd sylwadau ar y cais ar y 18 o Ragfyr 2013. Gweler gopi yn amgaedig o'r llythyr a yrrwyd.

Yn dilyn cyfarfod yr Is Bwyllgor, fe ail gyflwynwyd y cais unwaith eto gan y deilydd ar y 28 o Fawrth, 2014, ac fe ellir cadarnhau fod yr hysbyseb wedi ei gyflwyno yn gywir, yn unol a gofynion y Deddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. ( gweler gopi o'r hysbyseb ynghlwm)

**<u>CAIS</u>**

Cyflwynir y cais am ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol o ddarparu lluniaeth hwyr y nos a gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo.

Gweler y manylion yn y ffurflen gais mewn perthynas â'r camau a bwriedir eu cymryd gan yr ymgeisydd i sicrhau cydymffurfiad gyda'r amcanion trwyddedu.

Gofynnir am oriau gweithgaredd trwyddedig fel a ganlyn –

| | TRWYDDED GYFREDOL | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|---|
| Dyddiau | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** |
| **Sul- Mercher** | 23:00 – 02:00 | 23:00 – 02:30 |
| **Iau** | 23:00 - 02:00 | 23:00 – 03:00 |
| **Gwen - Sad** | 23:00 - 02:00 | 23:00 - 03:30 |
| | **Oriau gwerthu alcohol oddi ar y r eiddo** | **Oriau gwerthu alcohol oddi ar y r eiddo** |
| **Sul- Mercher** | 08:00 – 02:00 | 08:00 – 02:30 |
| **Iau** | 08:00 - 02:00 | 08:00 – 03:00 |
| **Gwen - Sad** | 08:00 - 02:00 | 08:00 - 03:30 |
| | | |

**Noder** fod yr oriau agor cyfredol ac arfaethedig ar gyfer yr eiddo yw 24 awr y diwrnod , 7 diwrnod yr wythnos.

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd yr ymatebion canlynol -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelodau lleol | 2 e bost - gwrthwynebiad |
| Cyngor Dinas Bangor | 1 e bost gwrthwynebiad |
| Aelod Cyngor Dinas Bangor | 1 e bost , gwrthwynebiad |
| Preswylydd lleol | Llythyr - gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | E Bost - amodau , dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr, dim gwrthwynebiad |

## CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

### Aelodau Lleol – Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd e bost yn gwrthwynebu gan ddau o aelodau lleol , yn bennaf ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus oherwydd posibilrwydd o gynnydd mewn sbwriel a sŵn. Noder fod yr eiddo yng nghanol ardal breswyl. Mynegwyd pryderon yn ogystal y byddai ymestyniad mewn oriau yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn.

### Cyngor Dinas Bangor

Derbyniwyd 1 e bost gan gynghorwr unigol ac un e bost gan Glerc y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus. Nodwyd fod yr oriau arfaethedig yn mynd i arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn, yn ogystal â chynnydd mewn niwsans sŵn a sbwriel ar y stryd.

### Heddlu Gogledd Cymru

Nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais am ymestyniad oriau. Safbwynt yr Heddlu yw bod yn briodol i holl drwyddedau eiddo gwerthu lluniaeth hwyr y nos ym Mangor fod yn gyfartal o ran oriau gweithgaredd trwyddedig, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodir fod yr Heddlu yn gofyn am gynnwys amodau ar y drwydded parthed TCC a Goruchwylwyr Drysau. Nodir yn ogystal fod yr Heddlu yn cydnabod fod Bangor Uchaf yn ardal breswyl; a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ymestyn yr oriau tuag at y penwythnos oherwydd hyn.

**Preswylydd lleol**
Derbyniwyd llythyr yn gwrthwynebu y cais a r sail niwsans cyhoeddus.

Gweler manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.